# Triniaeth lleihau meinwe radioamledd ar gyfer hypertroffi cogyrnog

Mehefin  2014

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae triniaeth lleihau meinwe radioamledd ar gyfer hypertroffi cogyrnog yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i'w defnyddio yn y GIG.

Dylai gweithwyr iechyd proffesiynol ddweud wrth gleifion bod ansicrwydd ynghylch pa mor dda y mae'n gweithio yn yr hirdymor. Dylent hefyd ddweud wrthynt ei bod yn bosibl y bydd angen triniaeth arall arnynt os daw eu symptomau'n ôl.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Yn arbennig, dylai egluro'r opsiynau o ran triniaethau eraill. Dylai hefyd ddweud wrthych nad ydym yn sicr pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio yn yr hirdymor a'i bod yn bosibl y bydd angen triniaeth arall arnoch os daw eich symptomau'n ôl. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

## Y cyflwr

Rhychau o esgyrn y tu ôl i'r trwyn, sydd wedi'u gorchuddio â philen meinwe, yw'r cogyrnau. Pan fydd y bilen yn llidus ac wedi chwyddo, mae'r cogyrnau'n mynd yn fwy ac yn rhwystro llwybrau aer y trwyn. Gelwir hyn yn hypertroffi cogyrnog.

Mae gan rai pobl sydd â hypertroffi cogyrnog symptomau hirdymor sy'n amrywio o rywfaint o orlenwad i drwyn sydd wedi'i flocio'n gyfan gwbl. Efallai y bydd eu trwyn yn rhedeg. Gall hyn effeithio ar eu cwsg ac efallai y byddant yn cael cur pen neu boen neu anesmwythder yn eu hwyneb.

Gellir defnyddio moddion llacio, chwistrelli i'r trwyn neu bigiadau corticosteroid i drin y broblem. Os nad yw'r rhain yn gweithio, gall llawdriniaeth fod yn opsiwn.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio triniaeth lleihau meinwe radioamledd fel triniaeth arall. Cliciwch ar y dudalen nesaf i gael rhagor o wybodaeth.

## Y driniaeth

Nod triniaeth lleihau meinwe radioamledd yw lleihau maint y cogyrnau. Fe'i cyflawnir fel arfer fel triniaeth i gleifion allanol gan ddefnyddio anesthetig lleol. Caiff stiliwr ei roi drwy'r croen, i mewn i geudod y trwyn, a'i symud i fyny i bilen meinwe'r cogwrn. Defnyddir ynni radioamledd i gau pibellau gwaed sy'n gallu achosi chwydd a dinistrio meinwe dros ben.

## Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd bod tystiolaeth ddigonol i ddangos bod y driniaeth wedi gweithio'n dda a'i bod yn ddiogel. Roedd y 10 o astudiaethau a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 854 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- gwellhad o'r symptomau yn para am ddwy flynedd o leiaf gan gynnwys gwellhad o drwyn wedi'i flocio, tisian, trwyn yn rhedeg a chwyrnu
- gwelliannau yn y llwybr anadlu.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau'n cynnwys:

- crawennu yn y trwyn
- chwyddo yn y trwyn.

Os hoffech wybod mwy am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?

- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllaw ymyriadau NICE yn cynghori'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN 978-1-4731-0712-0